

Adroddiad blynyddol ar Safonau'r Gymraeg.

Medi 2020 – Medi 2021

Cefndir

Mae'r Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gorff cyhoeddus anadrannol Deyrnas Unedig gyfan sy'n gyfrifol am ddsbarthu arian a godir gan y Loteri Genedlaethol. Rydym yn helpu cymunedau i gyflawni eu huchelgais trwy ddyfarnu grantiau i brosiectau sydd wedi'u harwain gan bobl yn y cymunedau hynny gan eu gwneud yn gryfach ac yn fwy bywiog. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi dyfarnu £588.2 miliwn i 14,000 o brosiectau ledled Prydain. Rydym bellach wedi bod yn gweithredu o dan ein henw newydd, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, ers Ionawr y 31ain 2019, cyn hyn roeddem yn gweithredu fel y Gronfa Loteri Fawr ers 2004.

Sut ydym ni'n cydymffurfio â'n Safonau Cymraeg

Mae'r Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog ac rydym wedi gweithredu Safonau'r Gymraeg ers 25 Ionawr 2017. Cyn hynny gweithredom Gynllun Iaith Gymraeg llwyddiannus iawn.

Mae gweithredu'r Safonau o fewn y mudiad wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn i ni gan iddo gryfhau'r gwasanaeth dwyieithog rydym yn ei gynnig i'n cwsmeriaid a'n deiliaid grant o ddydd i ddydd yn ogystal â galluogi ni i gynnig a darparu gwasanaethau Cymraeg i'n haelodau staff sy'n siarad Cymraeg am y tro cyntaf.

Mae wedi galluogi ein Tîm Cymraeg i gydweithio'n agosach â rhai o'n timau canolog sydd wedi'u lleoli y tu allan i Gymru, gan gynnwys adnoddau dynol, Caffael a thimau'r rhaglenni ariannu Deyrnas Unedig gyfan. Mae hefyd wedi ein galluogi i weithio'n agosach â mudiadau cyfrwng Cymraeg allanol i hyrwyddo ein gwasanaethau Cymraeg iddynt a'u cefnogi i wneud defnydd llawn o'r rhain.

Mae'r Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol yn gweithredu Safonau o dan gategoriâu Cyflenwi Gwasanaethau, Lluo Polisi, Gweithredu a Chadw Cofnodion.

Er mwyn i aelodau'r cyhoedd ddeall yn glir pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol , cydweithiom â chwmni Ateb yn 2016/2017 i lunio Siarter Iaith/Language Charter, sy'n esbonio mewn termau syml beth mae'r Safonau'n ei olygu i ni fel mudiad, i'n cwsmeriaid ac i'n staff. Yn dilyn ein hail frandio yn Ionawr 2019, mae ein Siarter Iaith a dogfennau cefnogol eraill wedi eu diweddarau. Mae ein posteri Siarter Iaith yn cael eu harddangos yn nerbynfeydd ein dwy swyddfa yng Nghymru felly ei fod yn glir i'n cwsmeriaid bod gwasanaeth dwyieithog ar gael iddynt. Mae'r Siarteri hefyd yn cael eu dangos yn ein swyddfeydd ym Mirmingham a Llundain.

Mae gennym hefyd fersiynau A5 o'r Siarter rydym yn eu hannu mewn digwyddiadau gyda phrosiectau, ymgeiswyr a budd-ddeiliaid.

Gellir gweld dolenni i'n holl ddogfennau sy'n tynnu sylw at ein gwasanaeth dwyieithog i'n cwsmeriaid yng Nghymru ar dudalen y Safonau Iaith Cymraeg ar ein gwefan. <<https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/about/customer-service/welsh-language-scheme>>

Sut rydym wedi sicrhau cydymffurfiad â'n Safonau Iaith Gymraeg o dan bob categori:

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

- Rydym bob amser yn falch iawn o'r gwasanaeth dwyieithog a gynigiwn i'n cwsmeriaid yng Nghymru. Gall ein hymgeiswyr a deiliaid grant weithio a chyfathrebu â ni trwy gyfrwng y Gymraeg trwy gydol bywyd eu grant os dymunant wneud hynny. Er yr oeddem yn hyderus yn ein Cynllun Iaith Gymraeg blaenorol, manteisiom ar Safonau'r Gymraeg fel cyfle i wneud gwelliannau. Gwnaethom sicrhau bod derbynfeydd ein dwy swyddfa yn ei gwneud yn glir i gwsmeriaid y gallent gyfathrebu â ni naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg ac fod dewis iaith ar gael.
- Rydym wedi gwneud defnydd da o nwyddau iaith Gwaith i hyrwyddo'r cynnig rhagweithiol ac rydym yn sicrhau bod gan ein holl aelodau staff sy'n siarad Cymraeg a'n dysgwyr Cymraeg logo iaith Gwaith ar eu llinynnau gwddf ac ar waelod eu llofnod e-bost. Rydym wedi bachu ar y cyfle i sicrhau fod ein swyddfa newydd yn y Drenewydd yn dangos yn glir ein bod yn sefydliad dwyieithog ag bod croeso i ymwelwyr ddefnyddio eu Cymraeg gyda ni. Rydym wedi prynu logos iaith gwaith finyl mawr sydd i'w gweld ar ddrysau ein swyddfeydd a'n hystafelloedd cyfarfod. Dros y flwyddyn ddiwethaf a ninnau wedi bod yn gweithio o gartref, rydym yn gwneud defnydd o'r logo iaith gwaith mewn modd wahanol drwy annog staff i'w gwisgo mewn cyfarfodydd ar lein a thrwy roi'r logo ar luniau ein staff sy'n siarad Cymraeg. Yn 2018, fe lanswyd ein gwefan Brydeinig newydd, sydd, yn unol â Safonau 48, 51 a 52, ar gael yn llawn yn Gymraeg a Saesneg ac mae'r ddwy iaith yn cael eu trin yn gyfartal. Mae hyn yn cynnwys ein brandio, ein tudalennau ariannu ar gyfer rhaglenni ledled Prydain ac yng Nghymru.

- Ar Ionawr 30ain 2019, lanswyd ein henw newydd a brand newydd, gan newid ein henw o'r Gronfa Loteri Fawr i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol / The National Lottery Community Fund. Mae ein henw, brand a hunaniaeth gyfan wedi eu cynnal yn ddwyieithog trwy gydol y newid hwn, yn unol â Safon 79.
- Ers 2017, rydym wedi cynnal hyfforddiant ar gyfer ein prosiectau a ariennir ar sut i weithio'n ddwyieithog. Rydyn ni wedi cynnal y rhain mewn partneriaeth â tîm Hybu Comisiynydd y Gymraeg ac maen nhw wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Y gobaith ar gyfer 2020 oedd trefnu 4 sesiwn mewn partneriaeth â Chronfa Treftadaeth y Loteri ar ddiwedd Mawrth 2020. Yn anffodus, yn sgil Covid - 19, bu'n rhaid gohirio'r sesiynau hynny ac fe'i cynhaliwyd dros Teams yn lle ym mis Mehefin. Ers hynny, yn ystod 2020 - 2021, rydym wedi parhau i gynnal y sesiynau hyfforddi bob 2-3 mis dros Teams i gychwyn a bellach dros Zoom. Cynhelir sesiwn Cymraeg a Saesneg bob tro rhwng 10-11.30 y bore. Rydym wedi cynnal 8 sesiwn dros y flwyddyn ddiwethaf ac wedi hyfforddi a siarad gyda 77 o brosiectau cymunedol ledled Cymru. (Yn gyfan gwbl ers 2017, rydym wedi cynnal 18 o sesiynau gyda 121 o sefydliadau o'r sector gwirfoddol a chymunedol a'r sector breifat) Gan ein bod wedi ariannu nifer o fusnesau bychain trwy ein rhaglen Cymunedau'r Arfordir ym Mawrth 2021, gwahoddyd Helo Blod i gymryd rhan yn y sesiynau fis Mehefin. Rydym hefyd wedi cynnig a chynnal sesiynau 1 i 1 a sesiynau wedi eu teilwra i sefydliadau gwahanol ar y cyd gyda'r tîm Hybu. Bydd y sesiynau yn parhau yn yr un modd dros y flwyddyn nesaf.
- Derbyniodd y sesiynau ar lein cyntaf adborth positif iawn gyda Karen Rees Roberts o Bartneriaeth Penparcau yn dweud: "Diolch anferthol i Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol a Comisiynydd y Gymraeg am gynnal sesiwn hyfforddiant datblygu gwasanaethau dwyieithog. Roedd y sesiwn o fudd i ni ym Mhenparcau ac roedd y wybodaeth yn glir ag yn effeithiol dros ben. Llwyth o tips syml ac roedd y wybodaeth yn cael ei drosglwyddo mewn arddull dealladwy. Os ydi eich prosiectau chi yn cael y cynnig i wneud y sesiynau yma ewch amdani."

Ym mhob agwedd o'n gwaith, rydym yn parhau i sicrhau bod ein cwsmeriaid yn derbyn y gwasanaeth gorau posib gennym yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Covid – 19

- Mae'r cyfnod clo wedi bod yn gofnod heriol i ni fel i lawer iawn o sefydliadau eraill ledled Cymru. Er hynny, rydym wedi parhau i gynnig gwasanaeth gwbl ddwyieithog i'n cwsmeriaid a'n deiliad grant yn yr un modd ag arfer. Ar ddechrau'r cyfnod clo, gwnaethpwyd newidiadau yn gyflym i sicrhau fod ein llinell ffon gymorth, oedd fel arfer yn cael ei hateb yn y swyddfa, yn parhau i gynnig gwasanaeth i'n cwsmeriaid o gartref. Mae tîm penodol o staff yn gyfrifol am ateb y llinell ffon gyswllt ac mae'r rhain oll unai yn siarad neu yn dysgu Cymraeg.
- Mae cyfarfodydd gyda phrosiectau am ffynonellau ariannu wedi parhau yn rhithiol dros y flwyddyn ddiwethaf gyda sesiynau yn cael eu cynnig ledled

ein tri rhanbarth. Rydym wedi cynnal sesiwn ariannu benodol ar gyfer ein cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith oedd yn llwyddiannus iawn yn ogystal â sesiynau sydd wedi eu cynnal mewn partneriaeth a sefydliadau penodol. Hyd yn hyn rydym wedi cynnal 3 gweithdy ariannu gyda Mentrau Iaith Cymru, 2 gyda'r Mudiad Meithrin yng Ngogledd Cymru ac 1 gyda'r Merched y Wawr. Edrychwn ymlaen at gynnal mwy o'r rhain dros y misoedd nesaf.

- Cynhaliwyd 3 sesiwn hyfforddiant Gloywi Iaith y llynedd yn rhithiol gyda Chwmni Iaith, yn sgil cais gan aelodau staff am hyfforddiant o'r fath. Mae ein harolwg o sgiliau Cymraeg staff ar gyfer 2020-2021 hefyd wedi codi'r angen gan staff am hyfforddiant Gloywi iaith bellach felly bydd hyn yn cael ei drefnu ar gyfer staff o fis Medi 2021 ymlaen.
- Oni bai am gollu'r cyswllt un i un gyda chydweithwyr â chwsmeriaid, mae'r cyfnod clo wedi caniatáu i'r Gymraeg ddatblygu yn llawer cynt o fewn y sefydliad. Mae gweithio o gartref wedi golygu fod modd i'n Swyddog Iaith a Chyfieithydd ymuno â chyfarfodydd tîm ledled y Gronfa, na fyddai'n bosibl fel arfer ac rydym wedi gallu cydweithio yn agosach â thimau amrywiol gan nad ydi teithio yn broblem. Rydym hefyd wedi gallu cyrraedd llawer iawn mwy o Gymry Cymraeg mewn cymunedau ledled Cymru drwy ein hyfforddiant, sesiynau ariannu a gwaith profi. Ar y cyfan, mae'r Gymraeg yn llawer cryfach yn y Gronfa o ganlyniad i'r newidiadau dros y flwyddyn ddiwethaf.

Safonau Llunio Polisiâu

- Yn dilyn mynychu cyfarfod rhithwir a'i gynhaliwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn 2020, un o'n blaenoriaethau dros y flwyddyn nesaf fydd ail edrych ar ein polisi ar y safonau polisi a'i ddiweddarau fel ei fod yn cyd-fynd a dull o weithio y Gronfa.
- Yn Ionawr 2020, gwnaethom gyhoeddi ein polisi newydd ar y Gymraeg â'n prosesau dyfarnu grantiau. Mae'r polisi wedi cael derbyniad da gan y cyhoedd a'n prosiectau ac mae i'w weld ar ein gwefan yma:
<https://www.tnlcommunityfund.org.uk/media/Welsh-language-in-grants-policy-w.pdf?mtime=20200213123702&focal=none>
- Mae holl wybodaeth am Safonau a trefniadau cydymffurfio y Gronfa ar gael ar y dudalen we:
<https://www.tnlcommunityfund.org.uk/welsh/about/customer-service/welsh-language-scheme>
- Am wybodaeth am unrhyw un o'n polisiâu ar y Gymraeg cysylltwch â ni:
cymorthcymraeg@cronfagymunedolyg.org.uk

Safonau Gweithredol

- Fel mudiad Deyrnas Unedig gyfan, gyda'r mwyafrif o'n gwasanaethau corfforaethol wedi'u lleoli mewn swyddfeydd y tu allan i Gymru, mae'r set hon o Safonau yn parhau i fod y set fwyaf heriol ar ein cyfer fel mudiad. O ganlyniad i hyn, roedd y terfynau amser i fodloni'r Safonau Gweithredol wedi'u gwasgaru dros gyfnod o 18 mis er mwyn i ni gael digon o amser i'w bodloni'n gyflawn ac yn hyderus.

- Er eu bod yn heriol, rydyn ni wedi gwneud cynnydd mawr yn iaith fewnol y mudiad dros y 4 blynedd a hanner diwethaf ers i ni ddechrau gweithredu'r Safonau ac mae ein safonau wedi'u cyflawni o fewn yr amserlenni penodol.
- Ein hiaith fewnol cyn mis Ionawr 2017 oedd Saesneg yn bennaf ac mae cyflwyno'r Gymraeg fel iaith fewnol arall wedi bod yn brofiad cadarnhaol iawn i lawer o staff, yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae'r broses wedi galluogi ein Tîm Cymraeg i gydweithio'n agosach â'n timau Adnoddau Dynol a Chaffael a thimau TG, ac mae wedi bod yn brofiad cadarnhaol i bawb.

O ganlyniad, mae ein llwyddiannau yn cynnwys y canlynol:

- Mae dros hanner staff cyfarwyddiaeth Cymru yn siaradwyr Cymraeg (25 allan o 48) gyda thri arall yn dysgu'r iaith. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y nifer o Gymry Cymraeg yr ydym yn eu denu i weithio i'r Gronfa dros y blynyddoedd diwethaf yn sgil gweithio yn agosach â'r tîm Adnoddau Dynol a datblygu dulliau recriwtio newydd.
- Mae gan aelodau staff yng Nghymru'r opsiwn i gwblhau ein hyfforddiant craidd, Hanfodion Gweithle, yn y Gymraeg. Cafodd hwn ei gyflwyno am y tro cyntaf yn 2018. Mae modiwl ar Ymwybyddiaeth iaith yn rhan o'r pecyn hyfforddiant yma i bob aelod o staff ledled Prydain ei gwblhau - ers i ni gyflwyno'r modiwl yma, rydym wedi gweld cynnydd y nifer y staff sy'n cysylltu â thîm y Gymraeg i ofyn am fwy o wybodaeth am ein gwaith dwyieithog ac am fanylion sut i fynd ati i ddysgu'r Gymraeg.
- Mae gennym dudalen Gymraeg penodedig ar ein mewnrwyd, gyda gwybodaeth yn cael ei hychwanegu yn gyson. Bydd y dudalen hon yn cael ei hail gynllunio ystod 2021.
- Yn ogystal â'n tudalen Gymraeg ar y fewnrwyd, mae'r rhan fwyaf o'n polisiau AD ar gael yn Gymraeg a Saesneg nawr yn ogystal â'n holl Hwb sy'n dal ein dogfennau lechyd a Diogelwch.
- Mae cyflwyniad i'n gwasanaeth iaith Gymraeg bob amser wedi bod yn rhan bwysig o'n proses ymgynefino i staff newydd yng Nghymru, ond ers 2018, mae'r Gymraeg bellach yn rhan o'n cyfnod ymgynefino corfforaethol i'r holl staff sy'n ymuno â'r Gronfa ledled Prydain. Fel arfer, mae gennym sesiynau ymgynefino bob yn ail fis i staff newydd a gynhelir ar yn ail yn ein swyddfeydd ym Birmingham a Newcastle ond gan fod ein swyddfeydd bellach ar gau yn dilyn Covid -19, mae'r sesiwn ymgeffino yn awr yn cymryd lle dros Teams. Pan fydd aelod o staff newydd yn ymuno â ni yng Nghymru neu yn gweithio mewn tîm sydd â pherthynas agos â swyddfa Cymru, megis y tîm ariannu Prydeinig, y tîm adnoddau dynol neu caffael, bydd sesiwn benodol ar y Gymraeg yn cael ei drefnu gyda'n Swyddog iaith. Ers Mawrth 2020, mae'r sesiwn anwytho yma ar y Gymraeg a'r Safonau yn cael ei gynnal dros Teams.
- Mae ein Swyddog iaith Gymraeg yn anfon diweddariadau a nodiadau atgoffa rheolaidd i staff ar ein cydymffurfiad â Safonau'r Gymraeg trwy gydol y

flwyddyn. Yng Nghymru, bydd hyn yn digwydd mewn cyfarfod wythnosol ar Teams o'r enw 'Yr Hydl'. Os yw'r diweddariad yn rhywbeth a fydd o fudd neu ddi-ddordeb i staff ledled y Gronfa, yna bydd yn hefyd yn cael ei rannu ar ein rhwydwaith fewnol, Yammer.

- Pryd bynnag y byddwn yn recriwtio aelodau newydd o staff, gofynnwn a fyddai'n well gan ymgeiswyr gael eu cyfweld yn Gymraeg trwy gwestiwn ar ein ffurflenni ymgeisio
- Bydd y cyfweiliadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael eu cynnal yn naturiol gyda phanel o siaradwyr Cymraeg a heb ddefnyddio cyfieithydd ar y pryd.
- Mae pob swydd newydd, os yw'n swydd fewnol neu allanol, sydd wedi ei lleoli o fewn Cyfarwyddiaeth Cymru neu y gellir ei lleoli unrhyw le ym Mhrydain, yn cael ei hysbysebu yn ddwyieithog ar ein gwefan, ar ein sianelau cyfryngau cymdeithasol ac ar wefannau recriwtio Cymraeg. Mae nifer siaradwyr Cymraeg y Gronfa wedi cynyddu yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf ac rydym yn awyddus iawn i barhau â'r cynnydd yma.
- Yn ystod flwyddyn ddiwethaf rydym wedi datblygu dogfen 'Rhestr Wirio Recriwtio' ar gyfer ei defnyddio gan ein staff ni yng Nghymru (Rheolwyr recriwtio, Swyddog Iaith) a staff y Tîm Adnoddau Dynol sy'n gyfrifol am y broses recriwtio yn ei chyfanrwydd. Mae'r rhestr wirio yn sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei hystyried ar bob cam o'r broses recriwtio a bod gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo yn rhwydd i aelodau staff newydd y Tîm Adnoddau Dynol.
- Mae gennym weithdrefn sy'n sicrhau y bydd unrhyw systemau ar-lein newydd at ddefnydd staff bellach yn cael eu caffael fel systemau dwyieithog, pryd bynnag y bo'n bosib, gan sicrhau y gall staff ddefnyddio'r systemau hyn yn naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y dyfodol. Bydd ein system Adnoddau Dynol ar gyfer cofnodi gwyliau ac amcanion staff am y flwyddyn, ar gael yn y Gymraeg erbyn diwedd 2021.
- Mae gan ein holl staff fynediad at hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith a hyfforddiant i ddysgu'r Gymraeg neu wella'u sgiliau Cymraeg. Mae ein tîm iaith Gymraeg hefyd yn cynnal hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith yn bwrpasol ar gyfer timau penodol o fewn y mudiad pan fo angen;
- Fel sefydliad rydym wedi cofrestru ar gyfer cyrsiau Cymraeg Gwaith, sydd yn adnodd gwych i'n staff. Mae nifer o'n staff wedi cymryd mantais o'r sesiynau ar lein 10 awr ac ambell un wedi cymryd mantais o'r cyrsiau eraill mwy ffurfiol sydd ar gael.
- Mae gennym ganllawiau amrywiol ar gael i'n staff, sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd. Mae'r rhain yn cynnwys: Llofnod e-bost, negeseuon e-bost allan o'r swyddfa a manylion cyswllt defnyddiol ar gyfer gwybodaeth ar yr iaith Gymraeg.
- Yn sgil ein holiadur blynyddol i staff ym Mehefin 2021, gwnaeth rai o'n staff sy'n siarad Cymraeg gais am ddogfen hwylus i'w defnyddio sy'n cynnwys termau cyson, enwau rhaglenni ariannu ayyb sy'n rhwydd i'w darganfod a'i defnyddio pan ar y ffon neu mewn cyfarfod rhithwir er enghraifft. Rydym

eisoes wedi cychwyn rhoi dogfen o'r fath at ei gilydd sydd wedi ei harbed ar Teams a byddwn yn ychwanegu ati yn gyson.

- Rydym yn parhau i wneud cynnydd gwych ar ddatblygu ethos mewnol dwyieithog o fewn y mudiad ac rydym yn edrych ymlaen i ddatblygu'r Gymraeg ymhellach yn fewnol o fewn y mudiad dros y flwyddyn nesaf.

Safonau Cadw Cofnodion

I fodloni gofynion y safonau cadw cofnodion, rydym yn cadw copïau o:

- Gwynion rydym yn eu derbyn mewn perthynas â'n cydymffurfiad â'r Safonau
- Nifer y staff sydd wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant a ddarperir yn Gymraeg
- Aseidiadau rydym yn eu cynnal mewn perthynas â sgiliau Cymraeg y gall fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu wag a faint o rolau a hysbysebwyd sy'n mynnu sgiliau Cymraeg fel hanfodol neu ddymunol.

Gwaith profi deunyddiau gyda chwsmeriaid

- Gan i ni gael profiad cadarnhaol o brofi ein ffurflen gais ariannu newydd ar gyfer Arian i Bawb yn 2019, ers mis Awst 2020 rydym wedi bod yn profi ffurflenni cais ein holl raglenni newydd ledled Prydain gyda'n chwsmeriaid Cymraeg.
- Hyd yma rydym wedi profi deunyddiau 6 rhaglen ariannu newydd gyda 15 chwsmers dros Teams sydd wedi bod yn brofiad positif dros ben. Rydym hefyd wedi profi ein cwestiynau Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant newydd yn 2021 gan weithio â siaradwyr Cymraeg mewn meysydd cydraddoldeb penodol i wneud hyn.
- Mae'r gwaith profi wedi cryfhau ein perthynas ag amryw sefydliadau ag unigolion ledled Cymru ac rydym yn ddiolchgar iawn iddynt am roi eu hamser i ni. Mae sawl un hefyd wedi cofrestru i ymuno â'n panel ymchwil Prydeinig, sy'n sicrhau cynrychiolaeth o ran y Gymraeg ar ein deunyddiau newydd i'r dyfodol.

Nifer y staff sy'n siarad Cymraeg

Canyliadau holiadur sgiliau Cymraeg staff 2020 – 2021

Niferoedd Staff

- Cwblhaodd dros 75% o'r staff yr arolwg
- Cwblhaodd 16 aelod o staff yr arolwg yn Gymraeg a cwblhaodd 18 yn Saesneg
- O'r 45 aelod o staff yng Nghyfarwyddiaeth Cymru, mae 25 yn siaradwyr Cymraeg ac mae gennym 3 dysgwr Cymraeg.
- Mae mwy na hanner ein staff yng Nghymru yn siaradwyr Cymraeg, y nifer uchaf erioed, sy'n ein rhoi mewn sefyllfa wych i allu cynnig gwasanaeth Cymraeg i'n chwsmeriaid ar draws ein holl ranbarthau.

Mae'r rhan fwyaf o'n siaradwyr Cymraeg yn gweithio yn rhanbarthau'r Gogledd a'r Canolbarth a'r Gorllewin neu nid yn rhan o ranbarth

Sgiliau Staff

- Mae'r rhan fwyaf o'r siaradwyr Cymraeg yn y Gronfa yn teimlo'n hyderus yn eu sgiliau darllen a gwrando ond mae'r niferoedd yn amrywio o ran sgiliau ysgrifennu a chyflwyno yn y Gymraeg.
- Mae cyfran uchel o staff di-Gymraeg yn teimlo bod ganddynt ddealltwriaeth sylfaenol o eiriau ac ymadroddion Cymraeg syml, yn gallu defnyddio rhai geiriau bob dydd cyfarwydd yn Gymraeg ac yn gallu darllen rhywfaint o Gymraeg hefyd, sy'n wych.

Awgrymiadau

1. Byddai'n ddefnyddiol cael taflen gyda themau defnyddiol bob dydd fel enwau rhaglenni, timau, themâu ac ati wrth law pan fyddwn yn trafod pwnc yn y Gymraeg gyda chwsmer neu aelod o staff: Mae ein Cyfieithydd eisoes wedi dechrau rhoi dogfen at ei gilydd at y diben yma.
2. Hyfforddiant gloywi iaith - Bydd Tîm y Gymraeg yn ymchwilio i gynnal hyfforddiant pwrpasol i staff
3. Cyfle i gael sgysiau anffurfiol yn Gymraeg gyda chydweithwyr - bydd y sesiwn sgwrs Gymraeg gyntaf yn cael ei chynnal fis Medi lle byddwn yn gofyn cwestiynau cwis buddugol un o'n dysgwyr mewn Eisteddfod gymunedol.

Nifer y staff a fynychodd hyfforddiant yn Gymraeg, os yw ar gael yn Saesneg.

- Mae ein Safonau yn nodi y bydd angen darparu hyfforddiant yn Gymraeg, os yw'n cael ei ddarparu yn Saesneg. Y cyrsiau hyfforddi hyn yw: recriwtio a chyfweld; rheoli perfformiad; gweithdrefnau cwyno a disgyblu; ymgynefino; delio â'r cyhoedd ac iechyd a diogelwch. Gwneir ein hyfforddiant lechyd a Diogelwch trwy system ar-lein yn flynyddol ac mae hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i'r staff ei chwblhau. Fel rheol, arweinir ein cyfnod ymgynefino yn swyddfa Cymru gan reolwr llinell yr aelod staff newydd ond gellir newid hyn yn dibynnu ar ddewis iaith yr unigolyn, felly gellir cynnal ein cyfnod ymgynefino yng Nghymru naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg. Nid yw'r mwyafrif o'r cyrsiau hyfforddi eraill a enwir yn cael eu cynnig yn Saesneg i'n staff ar hyn o bryd ac felly nid ydynt ar gael yn Gymraeg eto.
- Er hynny, rhan graidd o'r hyfforddiant ar gyfer ein holl staff yw'r modiwlau Hanfodion Gweithle, y mae'n ofynnol i'r holl staff ei wneud bob blwyddyn. Mae'n adnodd hyfforddiant ar-lein ac yn ymdrin â'r Côt Moeseg, Ymwybyddiaeth gwrth-dwyll a llygredigaeth, Diogelwch gwybodaeth a thrin data a Diogelu Data. Yn 2021 cwblhaodd 6 aelod o staff o Gyfarwyddiaeth Cymru yr hyfforddiant yn y Gymraeg a cwblhaodd 38 yr hyfforddiant yn Saesneg. Mae'r nifer o staff sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant yn y Gymraeg wedi cynyddu o 2 ers adroddiad y llynedd.
- Mae ein hyfforddiant Hanfodion Gweithle yn cynnwys modiwl newydd Ymwybyddiaeth Iaith sydd yn cael ei gwblhau gan bob aelod newydd o staff a phob aelod arall o staff yn flynyddol. Hyd at Fedi 2021 cwblhaodd 672 aelod o staff ledled Prydain yr hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith.

- Yn dilyn hyfforddiant rhithwir Gloywi laith gan Gwmni laith yn 2020, mae nifer o'n siaradwyr Cymraeg yn awyddus i gael dilyniant i'r sesiynau hynny. Bydd ein Swyddog laith yn gweithio gyda'n Cymry Cymraeg a darparwyr allanol i drefnu cwrs addas ar gyfer y Gronfa.
- Mae gennym 3 aelod o staff sy'n dysgu Cymraeg drwy gyrsiau ar lein ar hyn o bryd, gydag amryw o staff yn dilyn y sesiynau 10 awr am ddim sy'n cael eu cynnig gan Cymraeg Gwaith. Mae rhai aelodau o'n staff yn awyddus iawn i gefnogi ein dysgwyr drwy gynnal sgysiau rhithiol yn wythnosol. Yn ddiweddar mae dau o'n dysgwyr (un o Gaerdydd ag un o Firmingham) wedi bod yn llwyddiannus ar y darnau ysgrifenedig i ddysgwyr yn Eisteddfod Llansannan ac rydym yn falch iawn ohonynt a'r staff sydd wedi bod yn eu cefnogi. Bydd y sgysiau rhithiol yn parhau a bydd y dysgwyr yn cael eu gwahodd i fynychu'r sgysiau anffurfiol yn Gymraeg fydd yn cael eu trefnu i staff yn ystod 2021.

Sgiliau Iaith swyddi newydd yn y Gronfa

Mae'r Gronfa yn gweithredu Strategaeth Sgiliau leithyddol sydd yn arwain ein gwaith ar sicrhau fod gan ein gweithlu y sgiliau angenrheidiol i gynnig gwasanaeth ddwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru.

- Ers ein hadroddiad blynyddol diwethaf ym mis Medi 2020, hysbysebwyd 7 rôl o fewn Cyfarwyddiaeth Cymru.
- Y swyddi oedd â sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol oedd:
Cynorthwy-ydd Cefnogi Busnes x 3
Swyddog Materion Cyhoeddus
Swyddog Ariannu Gogledd Cymru (ardal Conwy)
Swyddog Ariannu De Cymru
Aelodau Pwyllgor Cymru x 2
- Y swyddi oedd â sgiliau Cymraeg yn ddelfrydol oedd:
Swyddog Gwybodaeth a Dysgu - Wedi recriwtio siaradwr Cymraeg
Aelod Pwyllgor Cymru x 1
Swyddog Ariannu rhan amser - heb lenwi'r swydd eto

Nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y mudiad o dan bob un o benawdau'r Safonau

Cwyn o dan y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau: Ym mis Gorffennaf 2021, derbyniwyd gwyn gan brosiect oedd wedi cael cyswllt gan gwmni oedd yn gwneud gwaith ymchwil cwsmer ar ran y Gronfa. Er bod y Gronfa wedi rhoi cyfarwyddiadau clir o ran yr angen i ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg i'n deiliaid grant oedd wedi nodi mai Cymraeg yw ei dewis iaith ac wedi darparu'r cyfieithiadau, nid oedd hyn wedi ei adlewyrchu yn y gwasanaeth cwsmer.

Derbyniodd y cwsmer alwadau yn y Saesneg yn gyntaf ac nid oedd popeth ar gael yn y Gymraeg fel y dylai fod.

Pan dderbyniodd y Gronfa'r gwyn yn y lle cyntaf, buom mewn cysylltiad â'r cwsmer i ddiolch iddynt am godi'r mater cyn cysylltu â'r adran oedd yn gyfrifol am gaffael y gwaith ymchwil. Derbyniodd y cwsmer ymddiheuriad ysgrifenedig gan y Gronfa gyda'r sicrwydd ein bod yn ymchwilio i'r mater.

Mae ein Swyddog Iaith Gymraeg yn gweithio â'n tîm ymchwil cwsmer â'n tîm caffael i roi prosesau mewn lle i sicrhau fod y Gymraeg yn cael ystyriaeth lawn drwy'r broses i'r dyfodol a bydd Swyddfa Cymru yn gweithio yn uniongyrchol â'r rhai fydd yn gwneud gwaith ar ran y Gronfa yn y dyfodol.

Beth yw barn ein cwsmeriaid am y Gronfa

Yn haf 2021, anfonwyd cyfres o gwestiynau am y Gymraeg yn y Gronfa yn un o'n holiaduron cwsmeriaid cyffredinol. Bwriad y cwestiynau hyn oedd canfod barn y cyhoedd am ddwyieithrwydd y Gronfa yn gyffredinol yn ogystal â chasglu gwybodaeth am pam mae nifer fawr o'n hymgeiswyr Cymraeg eu hiaith yn dewis cyflwyno eu ceisiadau yn Saesneg.

Nododd 14% o ymatebwyr Cymru sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig da. Roedd mwyafrif helaeth y rhain (12 allan o 18) yn gweld y Gronfa fel corff dwyieithog sy'n trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.

Er bod y rhan fwyaf wedi cwblhau'r ffurflen gais eu hunain, dim ond 2 a gwblhaodd eu ffurflen yn Gymraeg. Y prif reswm a nodwyd am hyn yw eu bod fel arfer yn ysgrifennu yn Saesneg yn y gwaith ac wrth ddelio â materion swyddogol.

Hoffem weld mwy o ymgeiswyr yn llenwi eu ffurflenni cais drwy gyfrwng y Gymraeg a byddwn yn parhau i annog hyn a monitro unrhyw gynnydd.

Manylion cyswllt

Os hoffech gysylltu â ni ynglŷn â'n Safonau Cymraeg neu gynnwys yr adroddiad blynyddol hwn, e-bostiwch ni ar cymorthcymraeg@cronfagymunedolyg.org.uk.